------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Hydref 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru

(09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (F:ISC) - 16 Hydref 2024**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau: Deiseb P-06-1403 Ailystyried Toriadau i Gyllid Ôl-raddedig a Chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i Gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU - 16 Hydref 2024**

(Tudalennau 3 - 4)

**2.3 PTN 3 - Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid - 18 Hydref 2024**

(Tudalennau 5 - 12)

## 3 Goblygiadau Ariannol y Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(09.30-10.30) (Tudalennau 13 - 39)

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Joanne Corke, Pennaeth Ymchwil, Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Briff Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(10.30)

## 5 Goblygiadau Ariannol y Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(10.30-10.45)

## 6 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

(10.45-11.10) (Tudalennau 40 - 80)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-22-24 P1 - Adroddiad drafft

## 7 Trafod goblygiadau ariannol Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

(11.10-11.20)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-22-24 P2 - Papur blaen **(Wedi'i gynnwys yn y pecyn atodol)**

Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Hydref 2024

Annwyl Peredur,

Ymhellach at fy llythyr diweddar yn eich hysbysu o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 3 Hydref ym Melffast, hoffwn adrodd yn fyr ar y trafodaethau. Cyhoeddwyd hysbysiad hefyd yn dilyn y cyfarfod: Hysbysiad gan y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid – 3 Hydref 2024 – GOV.UK (www.gov.uk).

Ymunodd y Gwir Anrh Darren Jones AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Shona Robison ASA, Ysgrifennydd Cabinet yr Alban dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a Dr Caoimhe Archibald ACD, Gweinidog Cyllid Gogledd Iwerddon â mi yn y cyfarfod.

Roedd tôn gyffredinol y cyfarfod yn un o gydweithio a phartneriaeth. Yn ystod ein trafodaeth ar y cyd-destun a'r cynlluniau economaidd a chyllidol, tynnais sylw at yr effaith a gafodd polisi cyni Llywodraeth flaenorol y DU ar gynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y GIG. Trafodwyd cyfleoedd i hybu cynhyrchiant, gan gynnwys drwy fentrau digidol a chytunasom i weithio gyda'n gilydd ar baramedrau cyflog y sector cyhoeddus. Roedd ymrwymiad hefyd i fynd ati i ymgysylltu fwyfwy ar y cyd er mwyn ysgogi twf.

Cynhaliwyd trafodaeth am gael hyblygrwydd cyllidebol priodol ar gyfer y llywodraethau datganoledig. Cytunwyd y byddai swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried y materion strwythurol er mwyn grymuso'r llywodraethau datganoledig i reoli ein hadnoddau yn y ffordd orau a'u defnyddio gan gyflawni'r gwerth gorau posibl.

Cydnabuwyd bod cyfres o faterion etifeddol y byddai Llywodraeth newydd y DU am lunio ei barn ei hun arnynt, ond y byddai iddynt hefyd oblygiadau ar gyfer y llywodraethau datganoledig. Gwnaethom ystyried sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wneud cynnydd, gan gynnwys ar ddyfodol y cronfeydd newydd yn lle cronfeydd yr UE a chyllid Cronfa Ffyniant Bro y DU. Roedd hyn yn cynnwys yr egwyddor bod yn rhaid i benderfyniadau gwariant mewn meysydd datganoledig gael eu gwneud gan y llywodraethau datganoledig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal gennyf i yng Nghymru.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

16 Hydref 2024

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Deiseb P-06-1403 Ailystyried Toriadau i Gyllid Ôl-raddedig a Chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i Gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 16 Medi i drafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Micaela Panes.

Mewn gohebiaeth a anfonwyd at y Pwyllgor Deisebau, dywedodd y deisebydd nad oedd yn credu bod y Gweinidog Addysg ar y pryd wedi archwilio'n drylwyr i effaith torri grantiau a bwrsariaethau ôl-raddedig ac, o ganlyniad i'r toriadau, y byddai myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol yn colli cyfleoedd ar gyfer addysg. Nododd y bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr cartref sy'n dewis peidio â dilyn graddau ôl-raddedig oherwydd diffyg cymorth ariannol, gan nodi arolwg Undeb Myfyrwyr Grŵp Russell.[1].

Hoffem dynnu sylw at y pryderon a godwyd cyn gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:

https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42854#:~:text=With%20the%20current%20cost-of-living%20crisis,%20the%20decline%20in

[1] https://russellgroupstudentsunions.org/cost-of-living-report

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb dros neges e-bost i’r tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref  MA-DB-10629-24

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
SeneddCyllid@senedd.cymru

18 Hydref 2024

Annwyl Peredur,

Diolch ichi unwaith eto am ystyried Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n falch bod eich Pwyllgor yn croesawu nodau'r Bil, a hoffwn ddiolch i Aelodau o'r Pwyllgor am hynny, ac am eu hargymhellion.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhellion isod.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth sydd ynghlwm yn helpu i lywio eich gwaith craffu pellach wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Gyfnod 2. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag aelodau o'r Pwyllgor ar fanylion y ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

**Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor Cyllid**

**Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.**

Rwy'n croesawu casgliad y Pwyllgor ynghylch goblygiadau ariannol y Bil fel y'u hamlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Rwyf wedi nodi fy ymatebion i argymhellion y Pwyllgor isod. Byddaf yn derbyn tri ar ddeg o'r argymhellion yn llawn; yn derbyn tri yn rhannol; ac yn derbyn dau mewn egwyddor.

**Argymhelliad 1:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau dull cyson o gyflwyno gwybodaeth ariannol mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig pan fo Bil yn cynnig nifer o newidiadau polisi gwahanol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru bob amser yn ceisio sicrhau bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r wybodaeth ariannol mewn modd cyson a thryloyw, gan hefyd geisio sicrhau bod yr wybodaeth yn hygyrch. Mae adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor wedi'u rhannu â swyddogion Trysorlys Cymru sy'n arwain ar y broses Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.

O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol penodol hwn, byddwn yn ceisio mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor pan fyddwn yn ei ddiwygio ar ôl cwblhau Cyfnod 2.

**Argymhelliad 2:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys tablau crynhoi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn dangos sut y mae'r elfennau cydrannol yn cyfateb i'r ystod o gyfanswm costau'r Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Wrth ddiwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl cwblhau Cyfnod 2, byddwn yn cynnwys tablau crynhoi ychwanegol.

**Argymhelliad 3:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau sydd ar waith i wirio ansawdd gwybodaeth cyn ei rhannu gyda'r Pwyllgor er mwyn osgoi sefyllfa lle mae'n gorfod gwirio ei thystiolaeth.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwaith gwirio ychwanegol yn cael ei wneud ar unrhyw ffigurau cymhleth yn ymwneud â'r Bil a rennir â'r Pwyllgorau, er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

**Argymhelliad 4:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn diweddaru ac yn cywiro'r Memorandwm Esboniadol ar y cyfle nesaf i fynd i'r afael ag unrhyw wallau ac anghysondebau ymddangosiadol rhwng gwerth cyfanredol y buddion a'r costau blynyddol yn y ffigurau a geir yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ogystal â chynnwys gwybodaeth am sut y cyfrifwyd y costau hynny.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru ac yn cywiro'r Memorandwm Esboniadol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wallau, egluro unrhyw anghysondebau ymddangosiadol neu fynd i'r afael â nhw, yn ogystal â darparu rhagor o wybodaeth pan fo hynny'n bosibl. Bydd Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn cael ei osod ar ôl cwblhau Cyfnod 2.

**Argymhelliad 5:**
**O ystyried yr ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon, mae'r Pwyllgor yn argymell, pe bai'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil yn newid yn sylweddol yn ystod ei daith drwy'r Senedd, bod cyfrifiadau wedi'u diweddaru ar gael a bod y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu pellach.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar ôl cwblhau Cyfnod 2 a byddwn yn fodlon bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor eto bryd hynny neu ddarparu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 6:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi diweddariad am y dystiolaeth ddiweddaraf ynghylch a oes disgwyl i ddarparwyr preifat newid i statws 'nid-er-elw', a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Pan fyddwn yn diweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar ôl cwblhau Cyfnod 2, byddwn yn darparu datganiad yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad fydd ar gael, a byddwn yn cynnwys gwybodaeth am hyn pe bai'n golygu addasu ein costau.

Caiff yr wybodaeth ddiweddaraf ei rhoi yn rheolaidd hefyd i Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw i helpu i liniaru risgiau. Bydd hyn yn elfen allweddol o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 7:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth adolygu'r Memorandwm Esboniadol, y dylai'r Gweinidog fodelu canlyniadau ariannol ymestyn y cyfnod trosiannol y tu hwnt i dair blynedd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwaith modelu ar gyfer canlyniadau ariannol estyn y costau trosiannol o ran dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal y tu hwnt i dair blynedd.

**Argymhelliad 8:**
**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ailedrych ar y rhagdybiaethau a wnaed ynghylch nifer y plant sy’n derbyn gofal a ragwelir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn sicrhau bod costau’r cynigion i ddileu elw o’u gofal mor gywir â phosibl, ac yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol ac empirig.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Er bod y duedd o ran nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn cynyddu ers dechrau casglu data yn 2003, mae wedi sefydlogi yn y blynyddoedd diwethaf, ers 2020.

Mae'r costau wedi'u hamcangyfrif gan ddefnyddio rhagdybiaeth y bydd nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn debygol o aros yr un fath yn ystod y deng mlynedd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r rhagdybiaeth hon ymhellach wrth ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl cwblhau Cyfnod 2.

**Argymhelliad 9:**
**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu’r anghysondebau ymddangosiadol rhwng gwerth cyfanredol y costau adnoddau (neu refeniw) blynyddol y disgwylir i awdurdodau lleol eu hysgwyddo a’r gostyngiad yn eu halldro o ganlyniad i’r darpariaethau yn y Bil i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, gyda'r gwerthoedd a adroddir yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Pwyllgor Cyllid wedi mynegi pryderon ym mharagraff 98 ei adroddiad nad yw swm y costau cychwyn, y costau cyfreithiol a'r costau comisiynu blynyddol ar gyfer gwasanaethau preswyl a maethu newydd yn cyfateb i werth y costau refeniw yng nghrynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae swm y costau hyn yn £65.0 miliwn ar gyfer Senario B (sydd £13.6 miliwn yn is na'r ffigur yng nghrynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) ac £86.7 miliwn ar gyfer Senario C (sydd £16 miliwn yn is na'r ffigur yng nghrynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

Er eglurder, yn ogystal â'r costau refeniw a nodir uchod, mae'r ffigurau yng nghrynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn ystyried y costau refeniw cynyddol sydd wedi'u modelu yng nghost darpariaeth er elw yn ystod y cyfnod pontio, ar y dybiaeth y byddai darparwyr sy'n gadael y farchnad yn codi premiwm yn ystod y cyfnod pontio. Gellir dod o hyd i'r costau hyn yn nhablau 7.19 (Senario B) a

7.22 (Senario C) yn y llinell alldro Awdurdodau Lleol – preswyl ar gyfer 2025-26 a 2026-27 (£0 yw'r ffigur ar gyfer 2026-27 yn Senario C).

Byddwn yn parhau i adolygu costau a sicrhau bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl cwblhau Cyfnod 2, yn amlinellu'r rhesymeg ar eu cyfer yn glir. Mae'r costau alldro yn cynrychioli arbedion awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 10:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn egluro ymhellach sut y bydd y cynigion i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn arwain at ostyngiad yn alldro awdurdodau lleol ar gyfer gofal preswyl a gwasanaethau maethu.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru eglurhad ar hyn yn ei hymateb ysgrifenedig i gwestiynau'r Pwyllgor ar 26 Gorffennaf 2024 (gweler yr ymateb i Gwestiwn 2(a)).

Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a oes modd rhoi eglurhad pellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl cwblhau Cyfnod 2.

**Argymhelliad 11:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cadarnhau a yw wedi gweithredu argymhelliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gynnal cynlluniau peilot i brofi'r potensial i awdurdodau lleol wneud arbedion drwy ddod â mwy o wasanaethau maethu yn fewnol:**

- **os felly, dylai'r Gweinidog gyhoeddi canlyniadau'r cynlluniau peilot;**
- **os na, dylai'r Gweinidog egluro pam na roddodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad ar waith.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Fel y nodwyd, roedd adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn argymell y dylid sefydlu cynlluniau peilot mewn rhai awdurdodau lleol i brofi'r posibilrwydd o wneud arbedion drwy sicrhau bod mwy o leoliadau maethu yn dod yn rhai mewnol.

Fodd bynnag, nid yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau plant yn ymwneud yn bennaf ag arbed arian. Mae'n ymwneud â newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd yn rhan o wasanaethau lleol sydd â lles y person ifanc yn ganolog iddynt.

Nid ydym felly wedi sefydlu cynlluniau peilot mewn rhai awdurdodau lleol i brofi'r posibilrwydd o wneud arbedion mewn gwasanaethau gofal maeth awdurdodau lleol gan ein bod yn canolbwyntio ar gymhwyso'r egwyddor o fewnoli drwy ddod â mwy o leoliadau maethu yn fewnol ledled Cymru.

Mae gofalwyr maeth yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'r newidiadau yr ydym yn ceisio eu gwneud ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer gofalwyr maeth awdurdodau lleol. Bydd hyn hefyd yn helpu i gyflawni ein hagenda trawsnewid ehangach i ailgydbwyso'r ddarpariaeth i ffwrdd o ofal preswyl i ofal maeth. Rydym yn rhoi cyllid

sylweddol i Maethu Cymru i helpu i gyflawni ei darged uchelgeisiol o recriwtio 800 o ofalwyr maeth ychwanegol erbyn 2026.

Byddem yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y dyfodol am y cynnydd y mae Maethu Cymru yn ei wneud.

**Argymhelliad 12:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, wrth ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:**

- **elfennau cydrannol y costau adnoddau (neu refeniw) y disgwylir i awdurdodau lleol eu hysgwyddo o ganlyniad i'r cynigion i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal er mwyn dangos yn well pa rai sydd wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon; a**
- **sut y cyfrifwyd y costau refeniw hyn, a'r gostyngiad yn yr alldro ar gyfer gofal preswyl i blant a gofal maeth.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir egluro'r sail ar gyfer y costau refeniw (gan gynnwys elfennau cydrannol), ac o bosibl eu hehangu ymhellach, wrth ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl cwblhau Cyfnod 2.

**Argymhelliad 13:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y prosesau a gynlluniwyd ar gyfer monitro unrhyw gynnydd yn y ffioedd a godir ar awdurdodau lleol gan ddarparwyr preifat ar gyfer lleoliadau, a'r mesurau a roddir ar waith i'w lliniaru.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid llywodraeth leol i ystyried y gweithdrefnau mwyaf priodol ar gyfer monitro'r sefyllfa ffioedd mewn perthynas â lleoliadau ac ystyried unrhyw gamau gweithredu ar y cyd i liniaru effeithiau cynnydd yn y ffioedd. Fel y mae'r Aelodau yn ymwybodol, mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn cydweithio i gomisiynu gwasanaethau llety i blant drwy eu trefniadau consortiwm. Mae'r dull consortiwm wedi bod yn adnodd pwysig y mae'r awdurdodau lleol wedi manteisio arno i gynllunio'n rhagweithiol a hynny er mwyn diwallu eu hangen i gomisiynu lleoliadau gan ddarparwyr preifat, a thrafod costau. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i allu defnyddio pŵer cyfunol eu consortiwm i liniaru cynnydd yn y costau a manteisio i'r eithaf ar eu safle bargeinio yn y broses gomisiynu.

**Argymhelliad 14:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, wrth ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu gwybodaeth am y canlynol:**

- **y modelau amgen a ystyriwyd i gyflawni'r amcan polisi o ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y costau cysylltiedig; a**
- **pham y gwrthodwyd yr opsiynau ar gyfer modelau amgen ac na chawsant eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rydym eisoes wedi amlinellu pam y gwrthodwyd yr opsiynau ar gyfer modelau amgen ym mharagraff 7.43 o'r Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r testun sydd eisoes yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn sicrhau ei fod mor glir a chynhwysfawr â phosibl o ran nodi pam yr ystyriwyd nad oedd y modelau hyn yn cyflawni'r amcan polisi.

O ran darparu costau ar gyfer y modelau amgen hyn, gan nad ydym o'r farn bod y rhain yn cyflawni'r bwriad polisi sylfaenol, nid ydym o'r farn bod yr ymarfer hwn yn berthnasol i'r Bil.

**Argymhelliad 15:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth i ddangos sut y bydd ailfuddsoddi unrhyw elw a wneir gan ddarparwyr yn gwella gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a sut y caiff hyn ei fesur.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi ar waith, byddwn yn archwilio'r potensial ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol i ystyried i ba raddau y mae'r symud i ddarparu gwasanaethau nid-er-elw wedi cael effaith gadarnhaol ar blant sy'n derbyn gofal a chynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau plant. Byddwn yn ystyried yr amserlenni ar gyfer hyn gydag aelodau o Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw wrth ystyried amserlenni ehangach y rhaglen dileu elw.

**Argymhelliad 16:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro sut y cyfrifwyd amcangyfrifon cost sy'n gysylltiedig â gweithredu a gweinyddu taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus, y disgwylir iddynt ddisgyn ar Lywodraeth Cymru, gan gynnwys manylion y data a'r modelau a ddefnyddiwyd, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys o fewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Pan fyddwn yn diweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar ôl cwblhau Cyfnod 2, byddwn yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut y mae costau gweithredu a gweinyddu taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus wedi'u hamcangyfrif.

**Argymhelliad 17:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth, pan fydd cost pecynnau taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus yn debyg i'r costau cyfartalog ar gyfer Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y gost tuag at waelod yr ystod hon.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth er mwyn ategu ei defnydd o gostau cyfartalog amcangyfrifedig pecynnau Gofal Iechyd Parhaus yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Argymhelliad 18:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cadarnhau'r ffynonellau a ddefnyddir i gyfiawnhau modelu goblygiadau ariannol y cynigion ar gyfer ariannu taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru ar lefel yr arbedion a wnaed gan GIG Lloegr ar ôl cyflwyno Cyllidebau Iechyd Personol, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Roedd gwybodaeth a gafwyd o ddata mewnol a ddarparwyd yn gyfrinachol gan GIG Lloegr yn sylfaen ar gyfer modelu lefel o arbedion o 11-16% sy'n gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus. Mae swyddogion wrthi'n gofyn i GIG Lloegr a oes modd cyhoeddi'r data hwnnw, ac os oes modd gwneud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys dolen neu gyfeiriad ato yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

Fodd bynnag, y gwir amdani weithiau yw bod gwybodaeth sydd wedi llywio'n hamcangyfrifon o gostau a buddion wedi'i rhannu'n gyfrinachol â Llywodraeth Cymru, boed hynny oherwydd sensitifrwydd masnachol neu resymau eraill, ac o ganlyniad, ni fydd bob amser yn briodol nodi ffynonellau penodol amcangyfrifon o gostau a buddion.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon